

## Cwestiynau ac atebion o weminarau

Maes Pwnc	Cwestiwn	Ateb
Cyffredinol	Onid ydych chi'n ystyried y bydd datblygu cymwysterau Cymru yn unig yn eu hanfod yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddysgwyr Cymru?	Mae llawer o gymwysterau yn cael eu cymryd ar hyn o bryd gan ddysgwyr mewn ysgolion a cholegau sydd wedi'u datblygu fel cymwysterau Cymru yn unig, gan gynnwys y rhan fwyaf o'r TGAU a gymerir gan ddysgwyr ar hyn o bryd.
Cyffredinol	Nid yw darparu manyleb ar gyfer addysgu yn 2025 i ysgolion flwyddyn yn unig ymlaen llaw yn caniatáu i ysgolion gynllunio eu cwricwlwm ar gyfer blynyddoedd 7 - 9 gyda'r bwriad o'r hyn sydd ei angen ar gyfer y TGAU. Mae angen i chi roi syniad clir iawn o'r hyn fydd ei angen cryn amser cyn hyn.	Byddwn yn cytuno ar y cynllun lefel uchel ar gyfer pob cymhwyster newydd y flwyddyn nesaf i helpu i egluro i bob un beth fydd y nodau penodol, pa gynnwys fydd yn cael sylw, a beth fydd y dull asesu.
Cyffredinol	A fydd rhai cymwysterau'n cael eu nodi fel rhai "gorfodol" neu "graidd" mewn ffordd debyg i'r Saesneg/Cymraeg a Mathemateg ar hyn o bryd?	Fel rheolydd cymwysterau annibynnol, ein rôl a'n cylch gwaith yw sicrhau y gall ysgolion a cholegau ddewis o ystod addas a phriodol o gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus sy'n diwallu anghenion rhesymol pob dysgwr. Rydym eisiau cymwysterau i gynnig cyfle i ysgolion a dysgwyr gyflwyno a phrofi eu cwricwlwm ysgol eu hunain. Mae ysgolion wrth gwrs yn rhydd i ddewis pa gymwysterau sydd ganddynt i'w dysgwyr.
Cyffredinol	Pan fyddwch chi'n trafod TGAU integredig, a ydych wedi ystyried yr anhawster o ran eu gweinyddu? Rwy'n gofyn hyn fel cydlynedd gwyddoniaeth ddwbl sy'n llawer anos ei reoli na chymwysterau TGAU sengl. Mae hyn ar sawl lefel.	Mae pa mor hawdd yw cymwysterau i ganolfannau eu cyflawni yn un o'r ystyriaethau allweddol yr ydym yn eu hystyried wrth ddatblygu cymwysterau newydd. Bydd hyn yn cael ei ystyried yng ngham nesaf y broses ddatblygu wrth i ni ystyried y cynnwys lefel uchel a'r gofynion asesu ar gyfer y TGAU newydd

Cyffredinol	A fyddwch chi'n cynnig cyfle i BOB corff dyfarnu gynnig cymwysterau yng Nghymru? Does bosib bod yr angen am ddewis yn hanfodol yng ngoleuni canfyddiadau Donaldson a diwygiadau cwricwlaidd.	Mae CBAC wedi ymrwmo i weithio gyda ni i ddatblygu ystod y TGAU a wnaed i Gymru a chymwysterau cysylltiedig eraill yn y dyfodol. Bydd angen i CBAC a chyrrff dyfarnu eraill sydd eisiau darparu cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed yng Nghymru eu datblygu mewn modd sy'n bodloni'r meini prawf a osodwyd. Fel y nododd Emyr hefyd, mae'r cynnig cymhwyster ehangach yn debygol o gynnwys cymysgedd o gymwysterau 'gwneud-i-Gymru' yn ogystal â'r rhai a gynigir ledled y DU. Ar hyn o bryd mae'r rhain ar gael gan ystod o wahanol gyrff dyfarnu.
Cyffredinol	A fydd disgwyl i bob disgybl gymryd cymhwyster ym mhob un o'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad yn 16 oed?	Mae'r cwricwlwm newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion roi statws cyfartal i bob un o'r chwe Maes tan 16 oed. Fel rheolydd cymwysterau annibynnol, ein rôl a'n cylch gwaith yw sicrhau y gall ysgolion a cholegau ddewis o ystod addas a phriodol o gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus sy'n diwallu anghenion rhesymol pob dysgwr. Rydym eisiau cymwysterau i gynnig cyfle i ysgolion a dysgwyr gyflwyno a phrofi eu cwricwlwm ysgol eu hunain. Mae ysgolion wrth gwrs yn rhydd i ddewis pa gymwysterau sydd ganddynt i'w dysgwyr.
Cyffredinol	A ydych wedi ystyried y gwaith aruthrol sydd eisoes wedi'i wneud i gefnogi'r fanyleb gyfredol o ran adnoddau dysgu cyfunol, llyfrynau, datganiadau adroddiadau, Ystafelloedd Dosbarth Google, profion, cynlluniau marcio, PowerPoints, fideos, gweithgareddau ymarferol, cynlluniau marcio llyfryn, Adnoddau cymorth Cynorthwyr Addysgu, adnoddau braille? Wrth orfod ail-wneud hyn i gyd, bydd disgyblion yn cael eu heffeithio wrth i bopeth gael ei ail-wneud o'r dechrau.	Rydym yn diwygio cymwysterau ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed er mwyn cefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Rydym yn ymwybodol y gall newidiadau i gymwysterau gael effaith sylweddol ar ysgolion ac athrawon. Trwy gydol y cyfnod cyd-adeiladu byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i adnabod ac ystyried effeithiau posibl newidiadau i lywio penderfyniadau am y newidiadau a gyflwynir yn y pen draw. Byddwn hefyd yn gweithio gyda chyrrff dyfarnu, Llywodraeth Cymru ac eraill i adnabod a sicrhau'r gefnogaeth, yr hyfforddiant a'r adnoddau angenrheidiol i gefnogi unrhyw newidiadau. Rydym hefyd wedi ymrwmo i sicrhau digon o amser arwain ar gyfer cymwysterau newydd i ganiatáu i athrawon fanteisio ar gyfleoedd datblygu a hyfforddi, dod yn gyfarwydd ag adnoddau wedi'u diweddarau ac i baratoi i addysgu cyrsiau newydd.

Cyffredinol	Yr unig reswm na allwn wneud cais am y gweithgorau pwnc-benodol yw oherwydd eu bod yn ormod o ymrwymiad amser a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i athrawon fod allan o'r dosbarthiadau. A fyddech chi'n ystyried cynnig y cyfle i fod yn rhan o'r grwpiau pwnc penodol yn yr oriau ar ôl addysgu fel rydych chi wedi'i gynnig i'r grŵp Maes Dysgu a Phrofiad?	Rydym wedi egluro a lleihau'r ymrwymiad amser yr ydym yn gofyn i athrawon a darlithwyr gyfrannu at y grwpiau hyn. Cyn belled ag y bo modd, byddwn yn osgoi gofyn i staff adael yr ysgol am ddiwrnodau cyfan, a bydd pob gweithgor yn anelu at drefnu cyfarfodydd rhithiol ar adegau sy'n gyfleus i'w haelodau. Yn anffodus, ni allwn addo y bydd y rhain bob amser y tu hwnt i oriau addysgu ysgolion.
Cyffredinol	Sut mae'r TGAU hyn yn canolbwyntio ar y dyfodol? Sut maen nhw'n paratoi plant ar gyfer byd cymhleth?	Rydym wedi datblygu set o flaenoriaethau i randdeiliaid eu hystyried wrth archwilio syniadau ar gyfer nodau, cynnwys ac asesiad TGAU newydd. Un flaenoriaeth yw edrych am gyfleoedd i gynnwys technoleg ddigidol yn fwy effeithiol, yn y cynnwys y mae dysgwyr yn ei astudio ac yn y dulliau asesu. Rydym hefyd eisiau edrych eto ar y wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau penodol y dylai dysgwyr eu hennill o gymryd TGAU i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn edrych i'r dyfodol. Er enghraifft, gallai mwy o ddefnydd o asesiadau llyfr agored annog dysgwyr i ddatblygu eu gallu i ddewis a chymhwyso gwybodaeth yn hytrach na dim ond dwyn i gof wybodaeth, a allai eu paratoi'n well ar gyfer bywyd, dysgu a gweithio mewn cymdeithas sy'n galluogi technoleg ac sydd â chyfoeth o wybodaeth.
Celfyddydau Mynegiannol	Nid yw llawer o ddisgyblion o reidrwydd yn meddwl dewis pynciau Celfyddydau Perfformio ar gyfer TGAU. A fydd yn rhaid iddynt sefyll cymhwyster yn y maes hwnnw?	Mae'r cwricwlwm newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion roi statws cyfartal i bob un o'r chwe Maes tan 16 oed. Fel rheolydd cymwysterau annibynnol, ein rôl a'n cylch gwaith yw sicrhau y gall ysgolion a cholegau ddewis o ystod addas a phriodol o gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus sy'n diwallu anghenion rhesymol pob dysgwr. Rydym eisiau cymwysterau i gynnig cyfle i ysgolion a dysgwyr gyflwyno a phrofi eu cwricwlwm ysgol eu hunain. Mae ysgolion wrth gwrs yn rhydd i ddewis pa gymwysterau sydd ganddynt i'w dysgwyr.

lechyd a Llesiant	A yw'n debygol y bydd newidiadau mawr i'r cymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, o gofio nad ydym wedi cael cyfle i gyflwyno'r rhain hyd yn oed!	Rydym yn ymwybodol mai dim ond yn ddiweddar y mae rhai o'r pynciau a nodwyd yn yr adroddiad penderfyniadau hwn wedi'u diwygio, er enghraifft lechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant a'r Amgylchedd Adeiledig. Er y gallant ofyn am lai o newid nag eraill yn y pen draw, bydd angen i ni sicrhau ein hunain bod y cymwysterau hyn yn cyd-fynd â nodau a dibenion y cwricwlwm newydd, a bod eu cynnwys a'u trefniadau asesu yn parhau i fod yn briodol.
Dyniaethau	Gan nad oes Dyniaethau TGAU. A allwch chi ddeall y farn bod ei haddysgu ym mlwyddyn 7, 8, 9 bron yn ddibwrpas?	Rydym wedi bod yn glir yn ein barn y dylai'r cwricwlwm siapio pa gymwysterau sydd ar gael, eu diben a'u cynllun- nid y ffordd arall. Wrth i ni ddechrau cyd-adeiladu TGAU newydd, bydd angen i ni ystyried sut y gall ei gynllun adlewyrchu a chefnogi cynllun cwricwlwm pob ysgol ei hun.
Dyniaethau	Fe sonioch chi fod dros 50% o ymatebwyr yr ymgynghoriad yn teimlo bod cymhwyster Dyniaethau integredig yn ddymunol, beth oedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn teimlo bod cael gwared ar wyddoniaeth driphlyg yn ddymunol?	Mae tudalen 43 adroddiad cryno'r ymgynghoriad yn rhoi manylion y safbwyntiau ar y cynigion gwyddoniaeth <a href="https://www.qualificationswales.org/media/7986/qualified-for-the-future-ors-summary-cymraeg.pdf">https://www.qualificationswales.org/media/7986/qualified-for-the-future-ors-summary-cymraeg.pdf</a>
leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	Unwaith y daw cymeradwyaeth, nid yw blwyddyn yn ddigonol i'r uned Gymraeg mewn addysg gomisiynu a chynhyrchu adnoddau i gefnogi o 2025.	Rydym yn gwybod pa mor bwysig fydd hi i adnoddau fod ar waith mewn modd amserol er mwyn caniatáu i ysgolion a cholegau baratoi ar gyfer yr addysgu cyntaf. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gael gwell dealltwriaeth o'i model strategol arfaethedig ar gyfer comisiynu deunyddiau addysgu a dysgu dwyieithog ar gyfer y cwricwlwm newydd ac unrhyw gymwysterau newydd a ddatblygir i'w gefnogi.
leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	I ddisodli iaith a Llenyddiaeth Saesneg ar wahân neu yn ychwanegol atynt?	Cadarnhau y bydd y TGAU integredig newydd yn Saesneg yn disodli'r cymwysterau iaith a llenyddiaeth ar wahân cyfredol.

<p>leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu</p>	<p>Gyda chymaint yn anghytuno'n gryf â chynnig Lloegr, pam wnaethoch chi benderfynu ei wneud beth bynnag?</p>	<p>Dylanwadodd sawl ffactor ar ein penderfyniad terfynol i fwrw ymlaen â chyfuno iaith a llenyddiaeth ar gyfer Saesneg. Roedd rhoi mwy o hyblygrwydd i ysgolion adlewyrchu ehangder a chydbwysedd eu cwricwlwm ysgol eu hunain ac i greu mwy o le i ddysgwyr ddilyn pwnc arall yn rhan bwysig o'n ffordd o feddwl. Nid yn unig y mae hyn yn adlewyrchu ethos ehangach y cwricwlwm newydd ond hefyd ei nod o symud oddi wrth gwricwlwm cul, anhyblyg a gorlawn. O safbwynt pwnc, mae gorgyffwrdd cynhenid rhwng y cymwysterau iaith a llenyddiaeth cyfredol ac ni fyddai eu cyfuno o reidrwydd yn arwain at golled sylweddol i'r naill ddisgyblaeth. Mae cyfuno hefyd yn osgoi'r rhaniad artiffisial rhwng iaith a llenyddiaeth, yn enwedig gan fod llenyddiaeth yn darparu cyddestun ar gyfer iaith – mae'n werthfawrogiad o sut mae iaith yn gweithio ac yn helpu i gyfoethogi'r astudiaeth o'r ddwy elfen. Yn rhyngwladol mae'n gyffredin i gymwysterau ar 16 ac ôl-16 oed gyfuno iaith a llenyddiaeth ac mae llawer o'r awdurdodaethau hynny'n dangos perfformiad cryfach mewn asesiadau darllen PISA. Gwyddom fod cymwysterau llenyddiaeth TGAU mewn rhai ysgolion, ar hyn o bryd yn cael eu cynnig fel pynciau dewisol yn unig. Yn unol â'r disgwyliad bod dysgwyr yn parhau i ymgysylltu â'r pedwar Datganiad o'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn yn gyfartal, fel y nodir yn y Canllawiau Cwricwlwm, rydym eisiau sicrhau bod cymwysterau nid yn unig yn chwarae rhan briodol wrth gefnogi'r disgwyliad hwnnw, ond - yn hanfodol efallai - nad ydyn nhw'n tanseilio uchelgais gyffredinol y cwricwlwm yn y Maes hwn.</p>
<p>leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu</p>	<p>Os ydych chi'n bwriadu symud ymlaen gyda'r cymhwyster 1.5 TGAU Cymraeg, a allwch chi egluro o ble y bydd y staff yn dod i addysgu'r pwnc hwn pan mae problem recriwtio sylweddol eisoes ar gyfer athrawon Cymraeg?</p>	<p>Rydym wedi penderfynu cadw ein penderfyniadau mewn perthynas â chymwysterau Cymraeg tan Ionawr 2022. Bydd hyn yn caniatáu amser ar gyfer adolygiad pellach o'r cynigion ochr yn ochr ag opsiynau posibl eraill wedi'u llywio gan fwriadau polisi cyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer y continwmm Cymraeg fel rhan o weithredu'r cwricwlwm neu unrhyw waith polisi ehangach. Bydd argaeledd athrawon Cymraeg ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn un o'r ffactorau a ystyriwn wrth adolygu'r dulliau posibl yn y maes hwn.</p>

Mathemateg a Rhifedd	Ar ba lefel/haenau y bydd y cymhwyster digidol Mathemateg yn cael ei osod?	Bydd y cymhwyster llai hwn yn cael ei anelu at y dysgwyr hynny nad ydynt efallai'n cyflawni gradd C neu'n uwch mewn TGAU a bydd yn darparu sylfaen y gallant ddangos cyrhaeddiad mewn cysyniadau mathemategol digonol i symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth. Er mwyn peidio â chyfyngu gormod ar gynllun y cymhwyster, nid ydym wedi rhagnodi lefel FfCChC y cymhwyster yn y pen draw; bydd hyn yn dibynnu ar y cynnwys penodol y mae'n ei gwmpasu a galw'r asesiad. Fel cymhwyster llai, â mwy o ffocws na'r TGAU, nid ydym yn disgwyl y bydd angen haenu'r asesiad.
Mathemateg a Rhifedd	Sut olwg sydd ar un TGAU a hanner?	<p>Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom gyfeirio'n benodol at faint y cymwysterau mewn perthynas â rhai o'n cynigion. Cynlluniwyd hyn yn bennaf i ddangos sut y gallai cymhwyster newydd edrych o'i gymharu â'r hyn sy'n cyfateb iddo ar hyn o bryd, ac i nodi sut y gallai hyn ddylanwadu ar rwyddineb y cynnig cymhwyster yn ei gyfanrwydd. Er enghraifft, ni fyddai angen i gymhwyster Mathemateg a Rhifedd TGAU cyfun fod mor fawr â'r ddau TGAU ar wahân sydd ar gael ar hyn o bryd i ddysgwyr, gan byddai'r gorgyffwrdd a'r dyblygu o ran cynnwys ac asesu yn cael eu lleihau'n sylweddol.</p> <p>Dyfernir y TGAU mwy hyn fel TGAU dyfarniad sengl, gyda dysgwyr yn derbyn un radd gyffredinol. Fel hyn mae yn Lloegr ar hyn o bryd, lle mae TGAU Mathemateg yn cael ei ddyfarnu fel TGAU sengl, mwy.</p>
Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Rwyf wedi darllen eich cynigion â diddordeb heddiw. Pam, er enghraifft, na all ein cemegwyr gael cyfle bellach i ennill TGAU yn y pwnc hwnnw? Pam mae gwyddoniaeth wedi'i thargedu'n benodol? Pam mae'n briodol na fydd dysgwyr a allai gael trafferth gyda gwyddoniaeth gael cyfle i astudio Dyfarniad Sengl (yn ein hysgol ni bydd hyn hefyd yn effeithio ar y	Byddwn yn bwrw ymlaen â TGAU integredig mewn nifer o feysydd (Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth). Bydd ein gwaith ar lunio'r cynnig cymwysterau 14-16 ehangach yn ystyried yn benodol a all cymwysterau eraill fod eu hangen ochr yn ochr â'r TGAU Gwyddoniaeth newydd, a pha rai.

	cwrs ASDAN sy'n rhedeg ochr yn ochr â hi).	
Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Mae peidio â pharhau â'r gwyddorau sengl yn drychineb i Ffiseg a Chemeg. Felly allwn ni wneud TGAU Saesneg i sicrhau eu bod nhw'n barod i astudio lefel 'A' a thu hwnt. Rydym yn byw mewn byd gwyddonol wedi'r cyfan, felly oni ddylem annog arbenigwyr pwnc yng Nghymru?	Na. Dim ond cymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo neu eu dynodi'n gymwys i gael cyllid cyhoeddus yng Nghymru y gall ysgolion a gynhelir yng Nghymru eu cynnig. Ni fyddwn yn dynodi TGAU a gynlluniwyd ar gyfer Lloegr mewn pynciau sy'n gorgyffwrdd yn sylweddol â TGAU 'gwneud-i-Gymru'.
Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Faint o amser cwricwlwm ydych chi'n ei ystyried ar gyfer dyfarniad dwbl, ar hyn o bryd mae'n 9 yn hytrach na 15 awr bob pythefnos?	Rydym yn rhagweld y bydd TGAU newydd tua'r un maint ag y maen nhw nawr. Rydym yn cyfeirio at oriau dysgu dan arweiniad fel arwydd o'r amser y mae cymhwyster wedi'i gynllunio i gael ei ddarparu. Dim ond arwydd yw hyn gan fod ysgolion yn cymryd penderfyniadau ynghylch pa mor hir i'w dreulio yn dysgu pwnc unigol. Rydym wedi cynnig y bydd y cymhwyster Gwyddoniaeth TGAU newydd wedi'i gynllunio i'w ddarparu mewn tua 240 o oriau dysgu dan arweiniad. Byddwn yn adolygu hyn wrth i'r gwaith ar gynnwys ac asesu'r cymhwyster fynd rhagddo.
Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Sut oedd yr ymatebion yn ymwneud â'r cynnig ar gyfer gwyddoniaeth?	Mae'r adroddiad cryno yn amlinellu'r ymatebion, mae tudalen 43 yn amlinellu ymatebion ar gyfer gwyddoniaeth <a href="https://www.qualificationswales.org/media/7986/qualified-for-the-future-ors-summary-cymraeg.pdf">https://www.qualificationswales.org/media/7986/qualified-for-the-future-ors-summary-cymraeg.pdf</a>

<p>Gwyddoniaeth a Thechnoleg</p>	<p>Yn ein hysgol ni mae tua thraean o'r disgyblion yn dewis dyfarniad triphlyg ar hyn o bryd. Sut mae'r cynnig hwn yn darparu ar gyfer y plant hynny?</p>	<p>Mae tudalen 83 o'n Hadroddiad Penderfyniadau yn trafod y rhesymeg dros ddisodli'r gyfres gyfredol o TGAU Gwyddoniaeth gydag un cymhwyster dyfarniad dwbl. Disgwyliwn y bydd angen i ddarpariaeth amgen fod ar gael o hyd fel y gellir diwallu anghenion pob dysgwr. Rydym hefyd yn gwybod y bydd rhai dysgwyr eisiau arbenigo mewn gwyddoniaeth a chael mwy o ddewis a hyblygrwydd ar yr agweddau ar wyddoniaeth yr hoffent ganolbwyntio arnynt. Gallai fod lle i gymwysterau eraill 'gwneud-i-Gymru' i ategu at y TGAU cyffredin y byddwn yn ei gyflwyno. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu y dylid archwilio hyn ymhellach gyda rhanddeiliaid dros y flwyddyn i ddod, ac fel rhan o'n gwaith i ail-lunio'r cynnig cymhwyster 14-16 ehangach. Bydd y gwaith hwn yn digwydd ochr yn ochr â'r gwaith ar gynllunio ein Gwyddoniaeth TGAU, gan ganiatáu inni ystyried yn gyffredinol anghenion gwahanol ddysgwyr a pha gymwysterau presennol, newydd neu wahanol yn y gofod hwn a allai gael eu cynnig yn ychwanegol at y TGAU cyffredin. Bydd hefyd yn caniatáu inni wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch diben y cymwysterau atodol hyn a sut y dylent ymwneud â'r TGAU cyffredin.</p>
<p>Gwyddoniaeth a Thechnoleg</p>	<p>Mae peidio â pharhau â'r gwyddorau sengl yn drychineb i Ffiseg a Chemeg. Felly allwn ni wneud TGAU Lloegr i sicrhau eu bod nhw'n barod i astudio lefel 'A' a thu hwnt. Rydym yn byw mewn byd gwyddonol wedi'r cyfan, felly oni ddylem annog arbenigwyr pwnc yng Nghymru?</p>	<p>Y canfyddiad bod TGAU gwyddoniaeth ar wahân yn rhagofyniad ar gyfer symud ymlaen i UG a Safon Uwch a bod prifysgolion yn ffafrio dysgwyr sydd wedi cymryd gwyddorau ar wahân yn TGAU na'r rhai sydd wedi ennill dyfarniad dwbl. Yn ein hadroddiad penderfyniadau, rydym wedi egluro pam ein bod yn credu bod hyn yn ddi-sail.</p>
<p>Gwyddoniaeth a Thechnoleg</p>	<p>Pam na all plentyn bellach gael y dewis i ennill TGAU mewn cemeg? Gallant wneud Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, Dawns, Celf ac ati (yr wyf yn eu cefnogi) ond nid cemeg (neu fioleg na ffiseg). Mae'n ddrwg gen i, yn syml, ni allaf ddeall hyn. Byddai</p>	<p>Fel ar gyfer Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill, bydd ystod o gymwysterau TGAU ar gael yn y Wyddoniaeth a Thechnoleg. Bydd angen i'r TGAU Gwyddoniaeth newydd ymgorffori cynnwys o ddisgyblaethau bioleg, cemeg a ffiseg er mwyn adlewyrchu'r Canllawiau Cwricwlwm. Bydd angen iddo hefyd adlewyrchu disgwyliad y cwricwlwm y gall dysgwyr wneud cysylltiadau rhwng profiadau dysgu a gwybodaeth a ddatblygwyd yn y Maes hwn a thu hwnt. O'r herwydd, rydym yn disgwyl gweld pob</p>



	<p>gennyf ddiddordeb mawr mewn deall y cyfiawnhad.</p>	<p>disgyblaeth yn cadw ei gwelededd a'i hynodrwydd yn y cymhwyster Gwyddoniaeth TGAU newydd.</p>